Rhif: **WG27349**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

# Rheoliadau a chod ymarfer mewn perthynas â Rhan 6 o’r Ddeddf

Dyddiad cyhoeddi: **Rhagfyr 2015**

ISBN Digidol 978 1 4734 5511 5
OGL © Hawlfraint y Goron 2015

# Rheoliadau a chod ymarfer mewn perthynas â Rhan 6 o'r Ddeddf – Crynodeb o'r Ymgynghoriad

**<u>Cynnwys</u>** **Tudalen**


**<u>Adran 1</u>**

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Cefndir** | **2** |
| **Y dystiolaeth ar gyfer newid** | **3** |
| **Y cynnig** | **4** |

**<u>Adran 2</u>**

| | |
|---|---|
| **Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad** | **7** |
| **Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr** | **26** |

## Adran 1

## Cyflwyniad

Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“y Ddeddf”) Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014. Mae'r Ddeddf yn sail i'r fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer rheoliadau a chodau ymarfer mewn perthynas â Rhan 6 o’r Ddeddf ar blant sy’n derbyn gofal. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 8 Mai 2015 a 31 Gorffennaf 2015.

Dosbarthwyd y ddogfen ymgynghori i’r canlynol:

- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru
- Y Comisiynydd Plant
- Y Comisiynydd Pobl Hŷn
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
- Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
- Rhwydwaith Gwella Sefydliadau Diogel
- Pwyllgor Meddygol Cymru
- Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
- Cyngor Gofal Cymru
- Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) Cymru

Cafwyd cyfanswm o 45 o ymatebion. Atodir rhestr o dderbynwyr yn Atodiad A. Ceir crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru yn Adran 2.

### Cefndir

Mae Gweinidogion Cymru wedi egluro eu bod yn dymuno i elfennau craidd y fframwaith statudol newydd fod yn eu lle ar gyfer mis Ebrill 2016, pan fydd y Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith.

Bydd y fframwaith yn cynnwys tair prif elfen, sef y Ddeddf ei hun, rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, a chodau ymarfer/canllawiau statudol. Mae’r tair elfen hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio'r fframwaith y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu ynddo o fis Ebrill 2016.

Mae’r ymgynghoriad ar y Rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan y Ddeddf a’r broses o’u gosod gerbron y Cynulliad yn cael eu cynnal mewn dwy gyfres yn bennaf. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn rhan o’r ail gyfres. Y bwriad yw gosod y rheoliadau hyn

gerbron y Cynulliad o fis Tachwedd 2015 er mwyn rhoi cymaint o amser â phosibl i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol addasu i'r gofynion newydd cyn iddynt gael eu rhoi ar waith ym mis Ebrill 2016.

**Y dystiolaeth ar gyfer newid**

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn ganolog i fywyd cyhoeddus Cymru. Caiff 150,000 o bobl ifanc, pobl hŷn a phobl anabl gymorth ganddynt bob blwyddyn i gyflawni eu potensial ac i'w helpu i fod yn ddiogel. Darperir llawer o'r gwasanaethau hyn mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys gwasanaethau tai, iechyd ac addysg. Mae'r gymdeithas yn newid a rhaid i wasanaethau cymdeithasol newid mewn ymateb i hyn. Bu newid yn nisgwyliadau'r cyhoedd o wasanaethau cymdeithasol a bydd hyn yn parhau, o ganlyniad i newid demograffig a newidiadau yn ein cymdeithas. Mae angen i wasanaethau cymdeithasol addasu ac ymateb i bob un o'r rhain.

At hynny, mae'r galw yn cynyddu ar draws gwasanaethau cymdeithasol, ond mae'r rhagolwg ariannol ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus yn un anodd. Er ein bod wedi diogelu gwariant ar wasanaethau cymdeithasol, mae angen inni wneud newid mwy sylfaenol na dim ond mynd ar drywydd y mesurau effeithlonrwydd amlwg er mwyn inni sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy. Mae ein Papur Gwyn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu yn nodi rhaglen o newid i ateb yr heriau hyn yn seiliedig ar y naw egwyddor ganlynol:

- Llais cadarn a rheolaeth go iawn
- Cefnogi ein gilydd
- Diogelwch
- Parch
- Adfer ac ailsefydlu
- Addasu i amgylchiadau newydd
- Sefydlogrwydd
- Symlrwydd
- Proffesiynoldeb

Mae'r rhain wedi eu llywio gan drafodaethau gyda rhanddeiliaid a dadleuon yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac mewn mannau eraill ers i *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru* gael ei gyhoeddi. Maent yn bodoli ochr yn ochr â thystiolaeth y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, adolygiad Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol i oedolion[1] a'n Hadolygiad o Ddiogelu[2]. Mae'r cyfan yn asgwrn cefn i'n hachos dros newid.

[1] http://lawcommission.justice.gov.uk/areas/adult-social-care.htm
[2] http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/reports/advisory/?lang=cy

Mae'r dystiolaeth hon, a'r broses o'i hystyried drwy broses graffu'r Cynulliad ar y Bil, wedi llywio a llunio cynnwys y Ddeddf. Mae'r cam nesaf, datblygu'r rheoliadau a'r codau ymarfer neu'r canllawiau statudol, wedi ei lywio gan gyfraniadau strategol allweddol fel Mwy na Geiriau, ein Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 3, prosiect Galluogi Cymru sy'n cynorthwyo'n uniongyrchol y broses o gyflawni a gweithredu Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol Llywodraeth Cymru a chan dystiolaeth a gafwyd drwy grwpiau technegol a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol. Mae'r grwpiau hyn wedi edrych ar ddarpariaethau'r Ddeddf, a'r polisi sy'n sail i'r rhain, yn fanwl, a rhoi cyngor i swyddogion ar sut y dylai'r rheoliadau a'r codau ymarfer gael eu llunio er mwyn cyflawni nodau'r Ddeddf a, thrwy hyn, gyflawni gofynion Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu. Mae'r broses hon wedi sicrhau amrywiaeth o gyfraniadau gwerthfawr y mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi eu defnyddio i ddatblygu'r rheoliadau a'r cod ymarfer drafft yr ymgynghorwyd yn eu cylch.

**Y cynnig**

I raddau helaeth mae Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn disodli Rhan 3 o Ddeddf Plant 1989. Mae'n ymdrin yn benodol â phlant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, pa un a ydynt yn y system ofal ffurfiol neu'n cael eu lletya'n wirfoddol gan yr awdurdod lleol.  Mae darpariaeth ar gyfer plant nad ydynt yn derbyn gofal, ond y mae ganddynt anghenion gofal a chymorth, yn cael ei chwmpasu gan Rannau 3 a 4 y Ddeddf, sy'n ymdrin ag asesu a diwallu anghenion pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, ac ymdrinnir â materion yn ymwneud â Chwynion, Sylwadau a Gwasanaethau Eirioli o dan Ran 10 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Fe ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y cyfresi canlynol o reoliadau:

- Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015
- Rheoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru) 2015
- Rheoliadau Ymweliadau â Phlant dan Gadwad (Cymru) 2015
- Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015

Mae'r rheoliadau hyn yn ystyried newidiadau i Ddeddf Plant 1989 a wnaed gan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008.  Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi ail-lunio rheoliadau nac ehangu'r gyfres o ganllawiau yn flaenorol, gan ragweld creu'r Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Mae'r rheoliadau'n egluro'r dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol mewn perthynas â lleoliadau ôl-18 i'r rhai sy'n gadael gofal gyda'u cyn-ofalwyr maeth. Mae'r rheoliadau hefyd yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ymweld â'r holl

[3] http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/words/?lang=cy

blant a ddedfrydwyd i'w cadw mewn sefydliadau diogel; yn benodol mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc nad oeddent yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol cyn eu dedfrydu. Maent hefyd yn gweithredu darpariaethau yn y Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr sy'n gwneud yr holl blant sy'n cael eu remandio i sefydliadau diogel yn blant ‘sy'n derbyn gofal’.

**Cod ymarfer**

Bydd y cod ymarfer ar gyfer rhan 6 yn disodli canllawiau o dan Gyfrolau 2 a 3 Deddf Plant 1989, canllawiau Deddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000, y canllawiau Ymweliadau â Phlant dan Gadwad a Chanllawiau Swyddogion Adolygu Annibynnol Cymru.

Mae'r cod ymarfer yn cynnwys wyth pennod, gan gwmpasu cynllunio gofal a chymorth, lleoliadau, cyswllt ac ymweliadau, adolygiadau, trefniadau ar gyfer gadael gofal, trefniadau byw ôl-18, llety diogel, a llety mewn mathau eraill o sefydliad.

Mae Pennod 1 yn ymdrin â chynllunio gofal a chymorth ac mae'n cwmpasu dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â chynlluniau gofal a chymorth a chynllun gofal y llys gan gynnwys cynlluniau iechyd ac addysg i'r plant hynny sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol.

Mae Pennod 2 yn ymdrin â lleoliadau plant sy’n derbyn gofal, a sut maent i’w lletya a’u cynnal. Mae'n cwmpasu lleoliadau gyda rhiant neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant (lle y mae hyn yn bosibl ac yn briodol); lleoliadau maeth, naill ei gyda pherthynas, ffrind neu berson arall sy’n gysylltiedig â'r plentyn, neu gydag un o ofalwyr maeth eraill yr awdurdod lleol; a lleoliad mewn cartrefi plant. Mae'n nodi'r ffactorau y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu hystyried wrth benderfynu pa leoliad sy'n diwallu anghenion plentyn orau, gan gynnwys yr angen i osgoi tarfu ar addysg y plentyn, yn enwedig os yw'r plentyn yng Nghyfnod Allweddol 4. Ceir canllawiau ar ba wybodaeth am y lleoliad y mae angen ei chofnodi yng nghynllun gofal a chymorth y plentyn, pwy y mae angen eu hysbysu am y lleoliad, a phryd a sut y dylid terfynu lleoliadau. Mae'r bennod hefyd yn cynnwys canllawiau ar y trefniadau panel i'w gweithredu wrth ystyried lleoliad y tu allan i'r sir neu leoliad mewn rhan arall o'r DU.

Mae Pennod 3 yn rhoi canllawiau ar y gofyniad bod un o gynrychiolwyr yr awdurdod lleol yn ymweld â phlentyn sy'n derbyn gofal yn ystod lleoliad. Mae hyn yn cwmpasu diben ymweliadau o'r fath (h.y. y canlyniadau y dylent eu cyflawni ar gyfer y plentyn), amlder yr ymweliadau, a sut y dylent gael eu cynnal a'u cofnodi. Mae'r bennod hefyd yn nodi pryd y bydd angen i awdurdod lleol ystyried penodi ymwelydd annibynnol ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal, a'r gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd ymwelydd yn cael ei benodi.

Mae Pennod 4 yn ymdrin ag adolygu achosion, a rôl a swyddogaeth swyddogion adolygu annibynnol.

Mae Pennod 5 y cod ymarfer yn nodi'r trefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n gadael gofal, gan gynnwys y broses cynllunio llwybr sy'n dechrau pan fydd plentyn sy'n derbyn gofal ar fin cael ei ben-blwydd yn 16 oed, rôl cynghorwyr personol, a'r mathau amrywiol eraill o gymorth y mae'n rhaid eu rhoi i'r rhai sy'n gadael gofal hyd at 25 oed. Mae'n esbonio'r categorïau amrywiol o'r rhai sy'n gadael gofal a ddiffinnir yn y Ddeddf, a lefel a mathau'r cymorth sydd ar gael i'r rhai sy'n gadael gofal ym mhob categori. Mae hyn yn cynnwys cymorth gyda phontio i oedolaeth a sgiliau byw'n annibynnol, help gyda dod o hyd i lety addas, a chymorth gydag addysg bellach neu uwch a hyfforddiant.

Mae Pennod 6 yn esbonio'r ddyletswydd newydd sydd gan awdurdodau lleol o dan y Ddeddf i hwyluso trefniadau byw ôl-18 i'r rhai 18 oed a hŷn sy'n gadael gofal sy'n dymuno parhau i fyw gyda'u cyn-ofalwyr maeth. Yng Nghymru, gelwir y rhain yn drefniadau ‘Pan Fydda i'n Barod’. Mae'r bennod yn nodi nodau ac amcanion y cynllun ‘Pan Fydda i'n Barod’ a'r canlyniadau a ddymunir i bobl ifanc a gofalwyr. Mae'n esbonio cymhwystra ar gyfer y cynllun, a natur a hyd trefniadau ‘Pan Fydda i'n Barod’. Mae'n rhoi canllawiau i awdurdodau lleol ar ddatblygu eu cynlluniau lleol, a sut i baratoi ar gyfer trefniadau byw ôl-18 a'u rheoli.

Mae Pennod 7 yn nodi'r fframwaith ar gyfer lletya plant a phobl ifanc mewn cartrefi plant diogel, lle mae hyn yn angenrheidiol i gadw'r plentyn neu'r cyhoedd yn ddiogel, gan gynnwys y cyfnod hwyaf y gellir cadw plentyn heb awdurdod y llys.

Mae Pennod 8 yn ymdrin â phlant sy'n cael eu lletya mewn mathau eraill o sefydliad heblaw am gartrefi plant diogel. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu plant sy’n cael eu lletya gan awdurdodau iechyd neu awdurdodau addysg neu mewn cartrefi gofal neu ysbytai annibynnol ac i drefnu ymweliadau â'r plant hyn a gwasanaethau ar eu cyfer yn ôl yr angen.

**Digwyddiadau Ymgynghori**

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori fel rhan o’r broses ymgynghori. Diben y rhain oedd:

- hyrwyddo ymgysylltu â'r ymgynghoriad;
- darparu lefel sylfaenol o ddealltwriaeth am y meysydd yr oeddem yn ymgynghori arnynt i grwpiau o randdeiliaid allweddol.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol gymryd rhan mewn trafodaethau ar roi’r rheoliadau ar waith, a hefyd rhannu gwybodaeth o'r digwyddiadau â'u rhwydweithiau

ehangach i ysgogi ymgysylltu dyfnach â'r cynigion a rhychwant ehangach o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ar 21 Mai yng Ngwesty St George, Llandudno. Cynhaliwyd yr ail ar 4 Mehefin yn Stadiwm Liberty, Abertawe gyda 200 o bobl yn bresennol ar y cyfan, a hwythau'n cynrychioli ystod o sefydliadau. Roedd yr amrywiaeth o randdeiliaid yn cynnwys cynrychiolaeth gan y canlynol:

- Plant yng Nghymru
- AGGCC
- Awdurdodau Lleol
- Byrddau Iechyd Lleol
- CLlLC
- Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
- Y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
- ADSS Cymru
- Voices from Care
- Y Rhwydwaith Maethu

Cynhaliwyd gweithdai yn y digwyddiadau ar bob Rhan o'r Ddeddf yr oeddem yn ymgynghori arni yng Nghyfres 2. Roedd cynnwys y gweithdai hyn wedi'i deilwra i gyd-fynd â'r testun, ond yn greiddiol i bob un roedd cyflwyniad gan swyddogion a thrafodaethau a gweithgareddau grŵp.

Cafodd y sylwadau a'r allbynnau o'r digwyddiadau hyn eu hystyried ochr yn ochr â'r ymatebion ysgrifenedig ffurfiol er mwyn goleuo'r rheoliadau, y cod(au) ymarfer ac, mewn perthynas â Rhan 9, y canllawiau statudol terfynol.

Cafwyd cyfanswm o 45 o ymatebion. Roedd rhai o'r ymatebion ar ffurf naratif yn unig ac felly nid ydynt yn ymddangos yn y crynodeb o'r ymatebion ticio blychau. Maent i gyd wedi cael ystyriaeth gyfartal o ran y sylwadau a gafwyd. Ceir rhestr o ymatebwyr yn Atodiad A. Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghyd â dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn Adran 2.

- **Adran 2 – Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1:**

| | **1. A ydych yn cytuno bod y rheoliadau a'r cod yn darparu fframwaith i ddiwallu anghenion tebygol o ran gwasanaethau gofal a chymorth i blant sy'n derbyn gofal neu sy'n gadael gofal?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm -** | 7 | 22 | 1 | 0 | 15 |

**<u>Crynodeb o'r ymatebion</u>**

Ar y cyfan roedd cytundeb eang bod y Rheoliadau a'r Cod Ymarfer yn darparu fframwaith sy'n gallu ymateb i anghenion tebygol o ran gwasanaethau gofal a chymorth i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal neu sy'n gadael gofal.

<u>Cyffredinol</u>

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai o fudd pe bai'r Cod Ymarfer yn cynnwys datganiad eglur ar ddiben gofal ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal. Awgrymwyd y dylai hwn ddatgan mai un o nodau eglur y system ofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n treulio cryn dipyn o amser mewn gofal yw eu bod yn cael adferiad ac yn cael eu hiachau o niwed a grëwyd yn y gorffennol, a hybu cadernid a llesiant emosiynol. Roedd teimlad hefyd y dylid diwygio'r Cod i'w gwneud yn glir y dylai'r ystod lawn o anghenion sydd gan blant a phobl ifanc o ran llesiant gael ei hasesu, nid dim ond yr anghenion sy'n cyrraedd y trothwy cymhwystra ar gyfer gwasanaeth.

Roedd CLILC yn teimlo y byddai o gymorth cynnwys cyfeiriad penodol yn y Cod at nod polisi'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer yr holl ymarferwyr yng Nghymru mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal ac at strategaethau perthnasol eraill megis y ddogfen ddrafft 'Gwella Uchelgeisiau a Chyrhaeddiad Addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru'.

Gofynnwyd a oedd adran 20(4) o Ddeddf Plant 1989 wedi cael ei hailadrodd yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac os nad oedd, beth oedd y rhesymau dros hyn. Yn gysylltiedig â hyn, roedd nifer o geisiadau am ddogfen sy'n nodi pa agweddau ar y ddeddfwriaeth plant sy'n bodoli'n barod fydd yn cael eu cadw a pha rai sydd wedi cael eu diddymu, ynghyd â diagramau i ddangos y llwybrau i ddod yn blentyn sy'n derbyn gofal a'r trefniadau cynllunio gofal, lleoli ac adolygu penodol sy'n gymwys i'r ystod o blant yn y system plant sy'n derbyn gofal. Yn yr un modd roedd cais am dabl sy'n dangos y newidiadau i statws gofal o ganlyniad i benderfyniadau yn y gyfundrefn cyfiawnder troseddol.

Yn fwy cyffredinol gofynnwyd am gysondeb o ran y derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio plentyn sy'n derbyn gofal yn y Cod (plant sy'n derbyn gofal, plant sy'n cael eu lletya, plant sydd mewn gofal / *looked after, accommodated, in care*).

Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol

Codwyd yr angen am bwyslais cryfach ar gefnogi iechyd meddwl a llesiant emosiynol, gyda rhai'n teimlo y dylai fod yn thema allweddol o fewn a thrwy gydol y broses o gynllunio gofal a chymorth a'r broses o gynllunio llwybr, ac y dylai gofalwyr gael eu cynorthwyo'n well gan y gwasanaethau cymdeithasol i feithrin perthnasoedd diogel, cadarnhaol. Roedd llawer yn teimlo ei bod yn hanfodol asesu iechyd meddwl a llesiant emosiynol ar adeg gynnar a bod angen mwy o ffocws ar effeithiau symud allan o ofal. Roedd galwad am ganllawiau newydd ar y cyd i awdurdodau lleol a byrddau iechyd yng Nghymru i sbarduno ymateb gwell, wedi'i dargedu i iechyd meddwl a llesiant emosiynol plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.

Cynlluniau Gofal a Chymorth

Roedd peth dryswch o ran y rhyngwyneb rhwng y cynllun gofal a chymorth newydd a chynlluniau eraill ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal (cynllun addysg personol, cynllun lleoliad, cynllun iechyd a.y.b.) a sut y byddai'r cysyniad o un cynllun ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal yn gweithio'n ymarferol. Gofynnwyd am fwy o eglurhad. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch pontio o'r cynllun gofal a chymorth i'r cynllun llwybr unwaith y mae person ifanc yn gadael gofal gan fod ymatebwyr yn teimlo bod y Cod yn anghyson o ran ei negeseuon ynglŷn â hyn.

Lleoliadau

Roedd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn cydnabod bod y gallu i leoli plentyn/plant gyda mabwysiadwyr penodol cyn gorchymyn lleoli yn wyriad sylweddol oddi wrth arfer cyfredol ac y gallai, i grŵp penodol o blant, leihau'r oedi o ran yr amser y mae'n ei gymryd iddynt gael eu lleoli ar gyfer eu mabwysiadu. Fodd bynnag, gofynnwyd am eglurhad o'r modd y byddai'r trefniadau hyn yn gweithio'n ymarferol. Roedd peth dryswch hefyd a oedd hyn yr un fath â'r darpariaethau maethu i fabwysiadu yn Lloegr.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo na ddylai'r Cod roi pwyslais ar osgoi tarfu ar addysg plentyn neu berson ifanc yng Nghyfnod Allweddol 4 yn unig. Er bod hon yn adeg bwysig ym mywyd person ifanc, roedd hefyd yn bwysig cydnabod bod cyfnodau eraill sydd lawn cyn bwysiced. Dylai'r pwyslais fod ar ymdrechion pawb i osgoi tarfu ar addysg ar bob adeg bontio allweddol.

Roedd sawl galwad i ehangu'r adran ar awdurdod dirprwyedig gofalwyr maeth.

Cododd y Rhwydwaith Maethu nifer o bwyntiau ynghylch statws ac awdurdod gofalwyr maeth. Roedd y Rhwydwaith yn teimlo y dylai'r rôl gael ei hystyried yn un broffesiynol, yn bartner o fewn y tîm o amgylch y plentyn a chanddo

bwerau penderfynu ar ran y plentyn. Dylai fod mwy o bwyslais ar fuddsoddiadau mewn hyfforddiant a chymorth i ofalwyr maeth – thema a gefnogwyd gan sawl un arall. Dylai hyfforddiant fod ar gael hefyd i weithwyr cymdeithasol i ddarparu dealltwriaeth glir am rôl y gofalwr maeth.

Roedd teimlad hefyd na ddylai fod hierarchaeth o opsiynau ar gyfer sefydlogrwydd, gyda gofal maeth hirdymor yn meddu ar yr un statws â mabwysiadu, gwarcheidiaeth arbennig a.y.b. Dylai statws gofal maeth hirdymor fel opsiwn ar gyfer sefydlogrwydd gael ei gryfhau o fewn y Rheoliadau a'r Cod a dylid darparu diffiniad o 'ofal maeth hirdymor'.

O ran darparu gwybodaeth ar adeg lleoli, roedd teimlad y dylai'r Rheoliadau a'r Cod ei gwneud yn glir pa wybodaeth yn union am blentyn y dylai awdurdodau lleol ei darparu ar gyfer gofalwyr maeth cyn eu lleoliad – awgrymodd y Rhwydwaith Maethu y dylai'r holl wybodaeth sydd ar gael fod yn cael ei datgelu'n llawn.

<u>Pan Fydda i'n Barod</u>

Roedd y trefniadau Pan Fydda i'n Barod yn cael eu croesawu ar y cyfan ond cododd sawl un bryderon ynghylch yr effaith ar y gronfa o ofalwyr maeth sydd ar gael a'r goblygiadau o ran costau ar gyfer ALlau.

<u>Cyfiawnder Ieuenctid a Sefydliadau Diogel</u>

Un thema allweddol a ddaeth i'r amlwg o nifer o ymatebion oedd y potensial ar gyfer gorgyffwrdd a/ neu ddryswch o ran cyfrifoldebau rhwng gwasanaethau cymdeithasol plant a'r tîm troseddau ieuenctid, gan gynnwys rhoi cymorth tra bo'r person ifanc dan gadwad ac ar ôl ei ryddhau. Roedd sawl galwad am fwy o eglurder ynghylch hyn, ac ynghylch y berthynas rhwng Rhan 6 a Rhan 11 o'r Ddeddf.

<u>Categorïau'r Rhai sy'n Gadael Gofal</u>

Roedd llawer o ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y Cod yn cynnwys disgrifiad ar ffurf naratif o 'Gategorïau' y rhai sy'n gadael gofal. Galwyd am gynnwys y naratif hwn yn y Rheoliadau hefyd, neu o leiaf am ddefnyddio cyfeiriadau at y Categori a'r disgrifiad ohono drwyddi draw yn y Cod er mwyn rhoi cymorth i weld y gydberthynas â'r Rheoliadau.

## <u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>

Mae'r gefnogaeth gyffredinol i'r fframwaith a nodir yn y Rheoliadau a'r Cod Ymarfer o fewn yr ymatebion yn dangos budd gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu eu cynnwys. Mae'r sylwadau a gafwyd wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol o ran galluogi Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r Rheoliadau, a'r Cod Ymarfer yn arbennig, er mwyn cynnig eglurhad pellach mewn rhai meysydd allweddol a chryfhau'r gofynion mewn meysydd eraill.

Bydd rhagymadrodd y Cod yn cael ei ddiwygio i gynnwys datganiad eglur am ddiben gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Bydd hyn yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru i weithio tuag at ailuniad lle y bo'n bosibl a, lle nad yw'n bosibl, gweithio i gyflawni lleoliadau sefydlog lle gall plant ddatblygu a ffynnu, ac yn y pen draw gwblhau proses bontio lwyddiannus i oedolaeth.

Bydd diwygiadau'n cael eu gwneud drwy'r Cod i wella eglurder ynghylch y broses o lunio un cynllun gofal a chymorth a'r berthynas â chynlluniau eraill. Byddwn hefyd yn diwygio'r cyfeiriadau yn y Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) at 'gynllun gofal' i gyfeiriadau at 'gynllun gofal a chymorth' i hybu dealltwriaeth a chysondeb. Hefyd, byddwn yn darparu mwy o eglurder o ran pa agweddau ar y ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli fydd yn cael eu cadw a pha rai sydd wedi cael eu diddymu a'r llwybrau i ddod yn blentyn sy'n derbyn gofal.

Mae'r Rheoliadau a'r Cod Ymarfer yn gosod gofyniad ar awdurdodau lleol i asesu a diwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal o ran llesiant emosiynol ac iechyd meddwl. Fodd bynnag, byddwn yn gweithio gyda'r sector i ystyried sut y gallwn sbarduno ymateb gwell, wedi'i dargedu i'r materion hyn.

<u>Lleoliadau</u>

Mae'r darpariaethau ar gyfer lleoli gyda darpar fabwysiadwyr yn newydd i'r Ddeddf, ac maent hefyd yn wahanol mewn rhai ffyrdd allweddol i'r darpariaethau a gyflwynwyd yn Lloegr yn ddiweddar. Byddwn yn ehangu'r arweiniad yn y Cod i egluro sut y bydd y trefniadau newydd yn gweithio yng Nghymru.

Er bod y Ddeddf a'r rheoliadau'n gwneud darpariaeth benodol ar gyfer osgoi tarfu ar addysg yn CA4 yn unig, mae'r cod yn pwysleisio'r angen i darfu gyn lleied â phosibl ar addysg plentyn wrth ystyried neu adolygu unrhyw fath o leoliad. Byddwn yn ystyried sut i gryfhau'r adran hon o'r cod.

Rydym yn cydnabod rôl hollbwysig maethu a gofalwyr maeth o ran gofalu am blant sy'n derbyn gofal, ac mai maethu hirdymor o bosibl yw'r opsiwn mwyaf priodol ar gyfer sefydlogrwydd i rai plant, a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Cod a fydd yn cael ei gyhoeddi. Byddwn yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid i ddatblygu Fframwaith Maethu Cenedlaethol i gefnogi datblygiad pellach maethu yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau a'r Cod yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i'r cynllun lleoli gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol y mae angen i'r gofalwr maeth feddu arni er mwyn gofalu am y plentyn hwnnw, ac maent yn nodi'r elfennau allweddol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i unrhyw weithred i rannu gwybodaeth sensitif fod yn gymesur ac ni fydd wastad yn briodol rhannu'r holl wybodaeth a ddelir gan yr awdurdod lleol. Mae'r Rheoliadau a'r Cod yn ceisio taro'r cydbwysedd cywir rhwng datgelu a chyfrinachedd.

Byddwn yn gweithio gyda'r sector i ystyried sut orau i ddarparu mwy o wybodaeth am awdurdod dirprwyedig gofalwyr maeth.

Pan Fydda i'n Barod

Bydd ein trefniadau monitro ar gyfer 'Pan Fydda i'n Barod' yn cynnwys yr effaith ar argaeledd lleoedd gofal maeth. Yn fwy eang, bydd recriwtio a chadw gofalwyr maeth yn cael sylw trwy ein gwaith i ddatblygu Fframwaith Maethu Cenedlaethol i Gymru. Mae'r broses o roi 'Pan Fydda i'n Barod' ar waith yn cael ei chefnogi gan gyfres o seminarau i awdurdodau lleol ac asiantaethau maethu, ac rydym hefyd wedi comisiynu arweiniad arfer da a deunyddiau eraill i gynorthwyo pobl ifanc a gofalwyr maeth i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch ymrwymo i drefniadau 'Pan Fydda i'n Barod'. Un o ganlyniadau allweddol y cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' yw bod pobl ifanc yn cael cymorth i symud i drefniadau byw mwy annibynnol dim ond pan fyddant yn barod i wneud hynny ac wedi datblygu'r hyder a'r sgiliau angenrheidiol. Rydym ni'n credu y bydd unrhyw gostau ychwanegol a ysgwyddir gan awdurdodau lleol o ganlyniad i roi'r cynllun ar waith yn cael eu gwrthbwyso gan fanteision proses bontio fwy llwyddiannus i fyw'n annibynnol.

Cyfiawnder Ieuenctid

Byddwn yn egluro'r cod a'i berthynas â'r darpariaethau yn Rhan 11 (ar garcharorion) mewn perthynas â phlant a phobl ifanc dan gadwad. Byddwn yn trafod yr angen am ganllawiau arfer da pellach yn y maes hwn gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Mae'r disgrifiadau a ddarperir ar gyfer categorïau'r rhai sy'n gadael gofal ym mhennod 5 o'r Cod wedi'u bwriadu i gynorthwyo'r darllenydd trwy gynnig eglurhad o amgylchiadau penodol y plentyn neu'r person ifanc a fydd yn perthyn i bob categori. Gan hynny, nid yw'n briodol ailadrodd y rhain yn y Rheoliadau. Fodd bynnag, bydd y Cod yn cael ei ddiwygio er mwy sicrhau y ceir cyfeiriadau at y categori a'r disgrifiad gan felly roi cymorth i weld y gydberthynas â'r Rheoliadau.

**Cwestiwn 2:**

| | **2. A ydych yn cytuno bod y cod a'r rheoliadau'n sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng rhagnodi gofynion hanfodol a chaniatáu ar gyfer penderfynu ar ddarpariaeth gwasanaethau yn lleol?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm -** | 4 | 15 | 9 | 1 | 16 |

**<u>Crynodeb o'r ymatebion</u>**

Roedd cytundeb eang ymhlith yr ymatebwyr bod y cod a'r rheoliadau'n darparu lefel o annibyniaeth i awdurdodau lleol ond roedd llawer yn teimlo y gallai'r cod fod yn fwy eglur o ran rhagnodi darpariaethau yr ystyrir eu bod yn hanfodol i sicrhau bod uchelgeisiau polisi Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni gyda chefnogaeth ac yn llwyddiannus ar lefel leol.

<u>Cyswllt ac Ymweliadau</u>

Awgrymwyd y dylai'r bennod hon o'r Cod gael ei hailenwi i'w gwneud yn glir nad oedd hyn yn cyfeirio at gyswllt teuluol ond at ddyletswydd awdurdod lleol i gadw mewn cysylltiad â phlentyn sy'n derbyn gofal ac ymweld â'r plentyn hwnnw. Roedd cais hefyd i gynnwys manylion pellach mewn mannau eraill am bwysigrwydd cynnal cyswllt â'r teulu, teulu estynedig a ffrindiau agos.

Roedd Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan yn teimlo bod y cynigion ar gyfer amlder ymweliadau i'w gweld yn iawn. Fodd bynnag, roeddent yn meddwl bod y disgwyliad i rannu adroddiadau ar gyfer yr holl ymweliadau'n afrealistig ac yn anghymesur.

Cafodd y defnydd o ymwelwyr annibynnol ymhlith awdurdodau lleol ei godi gyda llawer yn datgan nad ydynt yn cael eu defnyddio'n eang. Fodd bynnag, roedd y ffocws o fewn y Cod yn cael ei groesawu gyda rhai'n teimlo'i fod yn cynrychioli disgwyliadau cryfach.

Nid yw'r Cod yn cyfeirio'n benodol at y ddyletswydd a osodir ar awdurdodau lleol i ymweld â'r holl bobl ifanc sydd dan gadwad ni waeth a oeddent yn derbyn gofal yn flaenorol ai peidio. Gan fod hon yn ddyletswydd newydd a fydd yn cael ei gosod ar awdurdodau lleol mae angen iddi gael ei hamlygu ac yn ddelfrydol gynnwys y disgwyliad ar gyfer y rôl a'r swyddogaeth hon (diogelu yn bennaf), amlder yr ymweliadau, pwy ddylai eu cynnal, yr angen i adrodd ar yr ymweliad, cynnwys yr adroddiad a phwy ddylai ei gael.

<u>Y Rhai sy'n Gadael Gofal</u>

Roedd teimlad bod angen i'r adran ar hawl i gynghorwyr personol gael ei golygu er mwyn gwaredu gofynion o enghreifftiau o arfer da a allai newid dros amser. Nid yw lefel y manylder mewn perthynas â chynlluniau llwybr yn cael

ei hailadrodd mewn perthynas â chynlluniau gofal a chymorth felly roedd teimlad bod diffyg cysondeb. Roedd teimlad hefyd mewn perthynas â'r adran ar rai sy'n gadael gofal, bod yr adrannau ar bobl ifanc anabl ac iechyd meddwl plant a'r glasoed yn wan ac yn ddi-fudd.

Roedd diwallu anghenion y rhai sy'n gadael gofal o ran llety yn thema a gododd mewn nifer o ymatebion a gofynnodd rhai am gynnwys datganiad yn y Cod i ddynodi nad yw'r rhai sy'n gadael gofal yn gallu cael eu hystyried yn rhai sy'n fwriadol ddigartref yn ystod y cyfnod y mae'r awdurdod lleol yn dal i fod yn gyfrifol amdanynt.

<u>Adolygu</u>

Roedd rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol yn thema a gododd mewn llawer o ymatebion. Roedd ymatebwyr yn awyddus i weld mwy o fanylion yn y Cod am y rôl ond fe fynegon nhw bryderon hefyd am annibyniaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol a'u gallu i herio. Roedd llawer yn croesawu'r adolygiad a oedd ar fin cael ei gynnal o'r rôl ac yn gobeithio y byddai hwn yn pwysleisio mor bwysig oedd bod Swyddogion Adolygu Annibynnol yn canolbwyntio ar ganlyniadau hirdymor yn hytrach na chael eu hysgogi gan brosesau a bod y broses adolygu'n canolbwyntio ar blant ac yn cynnwys cyfranogiad ystyrlon.

<u>Lleoliadau</u>

Roedd Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan yn teimlo bod angen arweiniad pellach yn y Cod ynghylch opsiynau o ran gofal gan berthynas a statws cyfreithiol plentyn sy'n ddarostyngedig i drefniant teulu a ffrindiau anffurfiol.

Mewn perthynas â lleoliadau y tu allan i'r sir a thros y ffin gofynnwyd a oedd hyn yn cynnwys lleoliadau ar remánd. Roedd peth pryder hefyd ynghylch ymarferoldeb y ffaith bod yr awdurdod sy'n derbyn yn cael ei gynrychioli ar y panelau. Fodd bynnag, roedd y prif bryder yn ymwneud â'r gofyniad i awdurdodau lleol ystyried lleoliadau y tu allan i'r sir mewn trefn blaenoriaeth ddaearyddol (h.y. awdurdod cyfagos yng Nghymru, awdurdod arall yng Nghymru, cyn ystyried lleoliad dros y ffin). I'r awdurdodau hynny ar y ffin, efallai mai lleoliad dros y ffin fyddai'r opsiwn a fyddai'n cael ei ffafrio gan mai dyna fyddai'n tarfu leiaf ar addysg a darpariaeth iechyd y plentyn neu'r person ifanc. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo mai budd pennaf y plentyn ddylai fod yr unig faen prawf ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r sir.

**<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>**

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, unwaith eto, yn canolbwyntio ar y Cod Ymarfer yn bennaf.

<u>Cyswllt ac ymweliadau</u>

Mae pennod 3 o'r cod wedi cael ei ailenwi'n 'Cadw mewn cysylltiad' *('Keeping in Touch')*, i'w gwneud yn glir ei bod yn ymwneud â threfniadau i barhau â'r cyswllt rhwng awdurdod lleol a phlentyn sy'n derbyn gofal, yn hytrach na

threfniadau ar gyfer cyswllt teuluol. Mae’r bennod wedi cael ei hehangu’n sylweddol hefyd i gynnwys ymweliadau â phlant dan gadwad. Bydd hyn yn egluro’r cyfrifoldebau a’r llinellau amser ar gyfer ymweliadau o’r fath.

Rhai sy’n Gadael Gofal a Swyddogion Adolygu Annibynnol

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol, trwy ymgysylltu blaenorol â rhanddeiliaid, a thrwy adroddiadau arolygu cenedlaethol, o’r pryderon presennol ynghylch effeithiolrwydd rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol. Felly mae adolygiad o’r rôl yn mynd i gael ei gynnal cyn diwedd mis Mawrth 2016 fel rhan o’n gwaith i ddatblygu dull cenedlaethol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal. Rhagwelir y bydd yr adolygiad yn archwilio annibyniaeth a statws Swyddogion Adolygu Annibynnol yn ogystal â’r broses adolygu a’r broses benderfynu. Byddwn hefyd yn achub ar y cyfle i ystyried rôl ac effaith ymwelwyr annibynnol fel rhan o’r adolygiad. Yn y cyfamser, mae Pennod 4 o’r Cod wedi cael ei diwygio a’i hehangu i roi adlewyrchiad gwell o’r darpariaethau statudol a’r fframwaith rheoleiddio sydd wedi’u cynnwys yn y Ddeddf a’r Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru). Mae’r newidiadau hyn yn darparu manylion ychwanegol a mwy o eglurder mewn perthynas â gofynion y rôl.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y sylwadau ynglŷn ag ailbennu’r cydbwysedd o ran lefel y manylder yn y Cod ynghylch cynghorwyr personol o’i gymharu â lefel y manylder ynghylch Swyddogion Adolygu Annibynnol. Bydd hefyd yn cryfhau pennod 5 mewn perthynas â diwallu anghenion y rhai sy’n gadael gofal o ran llety ac yn amcanu at weithio gyda rhanddeiliaid i wella’r adrannau presennol ar bobl ifanc anabl ac iechyd meddwl plant a’r glasoed.

Lleoliadau

Mae gofal gan deulu a ffrindiau (neu gan berthynas) yn cyflawni rôl hollbwysig o ran cefnogi llawer o blant a phobl ifanc nad ydynt yn gallu byw gyda’u rhieni. Dan y Ddeddf, gall y trefniadau hyn naill ai fod yn anffurfiol gyda chymorth lle y bo angen trwy ofal a chymorth a roddir dan Rannau 3 a 4 o’r Ddeddf, neu, lle mae’r awdurdod lleol yn ystyried bod hynny’n angenrheidiol, fod yn lleoliadau gofal maeth a wneir dan Ran 6. Bydd y Cod yn cael ei ddiwygio i gynnwys sylw mwy sylweddol i drefniadau gyda theulu a ffrindiau, gan egluro’r disgwyliadau a’r gofynion ar gyfer y mathau hyn o drefniadau, gan gynnwys y seiliau cyfreithiol iddynt.

Cyflwynwyd y drefn blaenoriaeth ddaearyddol ar gyfer lleoliadau y tu allan i’r sir mewn ymateb i bryderon ynghylch lleoliadau dros y ffin ar gyfer plant sy’n derbyn gofal, a disgwylir y bydd y rhan fwyaf o leoliadau’n cael eu gwneud naill ai o fewn ardal awdurdod lleol neu yn ardal awdurdod cyfagos. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny sy’n rhannu ffin â Lloegr, y gallai lleoliad dros y ffin fod er budd pennaf y plentyn gan mai dyna fyddai’n tarfu leiaf ar ddarpariaeth addysg ac iechyd y plentyn neu berson ifanc. Byddwn yn ychwanegu categori pellach i’r drefn blaenoriaeth gan roi’r hyblygrwydd i’r awdurdodau lleol hynny ar y ffin ystyried lleoliadau

gydag awdurdod / awdurdodau cyfagos **ar ôl** iddo ystyried lleoliad yn yr awdurdodau cyfagos yng Nghymru **ond cyn ystyried** lleoliadau mewn rhannau eraill o Gymru. Byddwn hefyd yn cychwyn trafodaethau gyda'r Adran Addysg ynghylch protocol rhynglywodraethol newydd ar leoliadau dros y ffin.

**Cwestiwn 3:**

| | **3. A ydych yn cytuno bod y cod a'r rheoliadau yn galluogi clywed llais y plentyn sy'n derbyn gofal neu'n sy'n gadael gofal a gweithredu ar hyn?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm -** | 9 | 8 | 3 | 6 | 19 |

**<u>Crynodeb o’r ymatebion</u>**

Roedd yn amlwg bod llawer o ymatebwyr yn teimlo’n gryf ynglŷn â phwysigrwydd llais plant a phobl ifanc a bod angen pwysleisio hyn drwy’r Cod.

Roedd Gweithredu dros Blant yn teimlo, er bod rhagymadrodd y Cod yn ei gwneud yn glir y dylai barn plant a phobl ifanc gael ei chynnwys wrth bennu eu canlyniadau personol, nad oedd hyn wastad yn cael ei adlewyrchu wedyn yng nghorff y Cod. Roedd angen ehangu ar hyn i roi mynegiant mwy manwl o’r disgwyliadau ar Wasanaethau Cymdeithasol i helpu i ddatblygu a chyflawni canlyniadau sy’n cael eu harwain gan blant a phobl ifanc. Amlygwyd rhai bylchau hefyd o ran gofynion i gynhyrchu gwybodaeth sy’n hygyrch i blant a phobl ifanc.

Gofynnodd Comisiynydd Plant Cymru am gyfarwyddyd mwy clir i awdurdodau lleol ac eraill mewn perthynas â’r angen i drafod opsiynau ar gyfer cynlluniau gofal gyda phlant a phobl ifanc ac i egluro penderfyniadau o ran rheoli gofal wrthynt, gan sicrhau eu bod yn deall yr hyn sy’n mynd i ddigwydd a phryd y mae’n mynd i ddigwydd. Awgrymwyd hefyd y dylid ceisio cytundeb yr holl blant sy’n derbyn gofal sydd â’r gallu i gyfrannu at ddatblygu a deall eu cynllun gofal a chymorth, ac nid dim ond cytundeb y rhai dros 16 oed.

Er bod cydnabyddiaeth bod eiriolaeth wedi’i chynnwys yn y Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 10, mynegodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys yr NSPCC, bryder na chyfeirir rhyw lawer yn y Cod at hawl statudol plant sy’n derbyn gofal a’r rhai sy’n gadael gofal i eiriolaeth.

**<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>**

Bydd y Cod yn cael ei ddiwygio i gryfhau llais y plentyn sy’n derbyn gofal neu’r sawl sy’n gadael gofal a bydd cyfeiriad pellach at yr hawl statudol i eiriolaeth.

**Cwestiwn 4:**

| | **4. A ydych yn cytuno bod y rheoliadau a'r codau a ddatblygwyd o dan Ran 6 o'r Ddeddf yn gynhwysfawr o ran eu cwmpas?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm -** | 5 | 15 | 8 | 0 | 17 |

**<u>Crynodeb o'r ymatebion</u>**

Roedd galwad am ymestyn y darpariaethau 'Pan Fydda i'n Barod' i bobl ifanc sy'n gadael gofal preswyl gan eu bod yn debygol o fod ag anghenion mwy sylweddol a fydd yn effeithio ar eu gallu i ymgartrefu mewn cartref annibynnol newydd.

Roedd ychydig o sylwadau hefyd ynghylch y mecanweithiau ar gyfer sicrhau bod yr anghenion parhaus hynny ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cael eu diwallu pan ydynt yn mynd i sefydliad diogel ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

<u>Cynllunio Gofal a Chymorth</u>

Roedd yr NSPCC yn croesawu'r pwyslais ar ailuno drwy'r Cod, yn enwedig y gydnabyddiaeth i ddychweliad adref fel opsiwn ar gyfer sefydlogrwydd y mae angen cynllunio ar ei gyfer o'r dechrau un. Roedd hefyd yn croesawu'r gydnabyddiaeth i bwysigrwydd mynd i'r afael â'r ffactorau mewn bywyd teuluol a achosodd i'r plentyn ddod yn blentyn sy'n derbyn gofal, er mwyn i'r broses ailuno fod yn llwyddiannus. Fodd bynnag, roedd yn teimlo y gallai'r gofynion ar gyfer yr asesiad cyn dychwelyd a'r cymorth wedi hynny ar gyfer teuluoedd plant sy'n dychwelyd adref ar ôl derbyn gofal gael eu nodi'n fwy eglur byth yn y Cod. Mynegwyd barn fod y darpariaethau sy'n ymwneud â sefydlogrwydd o fewn y Cod yn dameidiog ac y byddai o gymorth eu dwyn ynghyd mewn un adran. Awgrymwyd geiriad ychwanegol hefyd i gryfhau'r darpariaethau mewn perthynas â sefydlogrwydd.

Tynnwyd sylw at y ffaith nad yw'r Cod yn cynnwys cyfeiriad at egwylion byr i blant anabl. Roedd teimlad bod hwn yn hepgoriad arwyddocaol gan fod y rheoliadau ar Gynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu yn Rhan 9 yn nodi'r addasiadau ar gyfer egwylion byr, gan gadarnhau felly nad yw statws fel plentyn sy'n derbyn gofal ac egwylion byr yn cau ei gilydd allan.

**<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>**

Ar hyn o bryd mae mynediad at y cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' ar gael i bobl ifanc mewn cartrefi plant preswyl dim ond os gellir eu symud i leoliad maeth addas cyn iddynt droi'n 18. Er y gall hyn roi amgylchedd teuluol cefnogol i berson ifanc wrth iddo wneud y newid i fyw'n fwy annibynnol, rydym yn cydnabod ei fod yn achosi amhariad i'w drefniadau byw yr oedd 'Pan Fydda i'n Barod' wedi'i fwriadu i'w atal. Felly, byddwn yn ystyried y potensial i ymestyn y cymorth sydd ar gael i bobl ifanc mewn cartrefi plant preswyl, gan

ddysgu gwersi o rannau eraill o’r DU sydd wedi ystyried newid o’r fath neu sydd eisoes wedi’i roi ar waith. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol ar hyn, gan gynnwys y Grŵp Monitro ‘Pan Fydda i’n Barod’.

Byddwn yn ystyried yr angen am ganllawiau pellach ynghylch priod gyfrifoldebau timau gwasanaethau cymdeithasol a thimau troseddau ieuenctid mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy’n cael eu cadw mewn sefydliadau diogel ac wedi iddynt gael eu rhyddhau.

Byddwn yn dwyn ynghyd y cyfeiriadau at sefydlogrwydd yn y Cod mewn un adran ac yn cryfhau’r darpariaethau mewn perthynas â hyn. Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru o weithio tuag at ailuniad lle y bo’n bosibl byddwn hefyd yn ystyried beth yn fwy ellir ei nodi yn y Cod mewn perthynas â’r asesiad cyn dychwelyd a chymorth wedi hynny i deuluoedd plant sy’n dychwelyd adref ar ôl derbyn gofal, ynteu a fyddai’n fwy addas paratoi canllawiau ynghylch hyn.

Bydd adran newydd sylweddol ar egwylion byr (gan gynnwys egwylion i blant anabl) yn cael ei hychwanegu at bennod 2 o’r Cod, ar leoliadau.

**Cwestiwn 5:**

| | **5. A ydych o'r farn y byddai canllawiau arfer da yn ddefnyddiol i ategu'r cod a'r rheoliadau?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm -** | 19 | 8 | 0 | 0 | 18 |

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd galwad am ganllawiau arfer da yn y meysydd canlynol:

- Canlyniadau sy'n cael eu harwain gan blant a phobl ifanc
- Ailuno/ Plant yn gadael gofal i fyw gyda rhiant, perthynas neu berson arall â chyfrifoldeb rhiant
- Cynghorwyr personol
- Hwyluso ymglymiad plant a phobl ifanc yn y prosesau sy'n ymwneud â hwy
- Cynllunio effeithiol a phlentyn-ganolog
- Cefnogi ceiswyr lloches ifainc ar eu pen eu hunain
- Rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol ac Ymwelwyr Annibynnol
- Cynllunio Trawsffiniol
- Egwylion Byr a Gofal Seibiant
- Awdurdod Dirprwyedig i Ofalwyr Maeth, ac Arosiadau Dros Nos
- Pan Fydda i'n Barod
- Meysydd gwaith lle ceir atebolrwydd deuol rhwng Timau Troseddau Ieuenctid a Gwasanaethau Plant
- Trefniadau ar gyfer diwallu anghenion pobl ifanc/plant yn y ddalfa/dan gadwad ac wedi iddynt gael eu rhyddhau

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Byddwn yn ystyried yr angen am ganllawiau ymarfer yn y meysydd a awgrymwyd wrth i'r broses o roi'r Ddeddf ar waith ymsefydlu a byddwn hefyd yn ystyried sut y byddwn yn blaenoriaethu'r gwaith o gyhoeddi unrhyw ganllawiau o'r fath.

**Cwestiwn 6:**

| A ydych yn credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim? | |
|---|---|
| **Crynodeb** | Ychydig iawn o sylwadau a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Fodd bynnag, roedd teimlad cyffredinol y byddai effeithiau cadarnhaol ar gyfer yr holl blant sy'n derbyn gofal a phawb sy'n gadael gofal pe bai'r cynigion a nodir yn y Cod yn cael eu rhoi ar waith mewn modd cyson a chadarn.<br><br>Fe wnaeth rhai y sylw y byddai pwyslais cynyddol ar glywed barn y plentyn o fewn y Cod hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. |

**Cwestiwn 7:**

| **A ydych yn credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?** | |
|---|---|
| **Crynodeb** | Eto, ychydig iawn o sylwadau a gafwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd un ymatebydd yn teimlo y gallai'r Cod gael ei gryfhau'n sylweddol i roi ffocws cryfach ar anghenion plant anabl yn y system derbyn gofal. Gallai hyn gynnwys y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n cael eu lletya at ddibenion egwylion byr.<br><br>Bydd adran newydd sylweddol ar egwylion byr (gan gynnwys egwylion i blant anabl) yn cael ei hychwanegu at bennod 2 o'r Cod, ar leoliadau. |

**Cwestiwn 8:**

| **Bydd ailgydbwyso'r system gofal a chymorth i gyflawni'r fframwaith cyfreithiol newydd yn galw am ailflaenoriaethu adnoddau. Beth yw'r camau allweddol sydd angen eu cymryd i gyflawni hyn?** | |
|---|---|
| **Crynodeb** | Roedd nifer o awgrymiadau o ran sut y gallai adnoddau gael eu hail-flaenoriaethu i gyflawni'r fframwaith cyfreithiol newydd.<br><br>Roedd rhai'n teimlo y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu adnoddau i sicrhau bod gan awdurdodau lleol y cyllid a'r cymorth y mae eu hangen arnynt i sicrhau llwyddiant y cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny ac arnynt ei angen. Dylai'r cynllun gael ei fonitro a'i werthuso fel bod yr holl bartneriaid yn gallu barnu cynnydd a chydnabod llwyddiant.<br><br>Roedd galwad am adrodd mewn modd tryloyw ar ail-alinio cyllidebau lle mae hyn yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'n rhaid i ddadansoddiad eglur o unrhyw effaith bosibl ar blant a theuluoedd fod yn ganolog i'r holl ystyriaethau wrth gymryd unrhyw gamau i ailflaenoriaethu adnoddau.<br><br>Gwnaeth un ymatebydd y sylw y bydd angen i awdurdodau lleol adolygu buddsoddiadau presennol a lleihau neu ddatgomisiynu gwasanaethau ataliol hanfodol i gefnogi neu gynnal trefniadau gofal ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. Bydd gan addysg a hyfforddiant rôl bwysig o ran ailbennu cydbwysedd y system gofal a chymorth, ochr yn ochr ag arweinyddiaeth gref gan gyfarwyddwyr a rheolwyr mewn gofal cymdeithasol.<br><br>Dywedwyd fod angen blaenoriaethu adnoddau sy'n gysylltiedig ag atal yn gynnar ac sy'n gysylltiedig â'r nod o leihau'r angen am ymyriadau statudol dros y tymor hwy. Cyfeiriwyd at ddatblygu a phrofi modelau gwasanaeth newydd sy'n pwysleisio atal ac ymyrryd yn gynnar; gweithio trwy oblygiadau modelau gwasanaeth newydd ar gyfer y gweithlu; gweithio ar y cyd ac integreiddio, gan gynnwys datblygu partneriaethau rhanbarthol; gwelliannau parhaus mewn cysondeb ac ansawdd yn cael eu sefydlu fel rhan annatod o wasanaethau a reoleiddir, ffocws ar ailalluogi, a sefydlogi a datblygu'r farchnad.<br><br>Bydd gwella sefydlogrwydd i blant sy'n dychwelyd adref nid yn unig yn gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ond bydd hefyd yn golygu arbedion i awdurdodau lleol. |

| | |
|---|---|
| | **Ymateb Llywodraeth Cymru**<br><br>Mae'r Ddeddf yn galw am ffocws newydd ar gymorth cynnar i atal anghenion rhag dwysáu gan olygu bod angen ymyriadau mwy dwys, a fyddai o bosibl yn fwy ymwthiol ac yn sicr yn ddrutach.<br><br>Bydd hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol weithio gyda'u partneriaid ar lefelau ranbarthol (BILl) a lleol i ddatblygu ystod briodol o wasanaethau ar draws y continwwm gofal.<br><br>Bydd angen iddynt ddatblygu dealltwriaeth am y modd y mae eu hadnoddau'n cael eu defnyddio ar draws y system gyfan, ynghyd â'u heffaith o ran canlyniadau a gyflawnir. Bydd angen i Lywodraeth Cymru roi cymorth technegol a hwyluso digwyddiadau dysgu i helpu i gyflawni hyn.<br><br>Bydd angen mwy o dryloywder hefyd o ran gwariant.<br><br>Bydd dealltwriaeth well o lawer am anghenion ac effaith y defnydd o adnoddau'n goleuo dyluniad gwasanaethau a ddarperir yn lleol. |

**Cwestiwn 9:**

| **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod inni amdanynt.** | |
|---|---|
| **Crynodeb** | • Yr hawl i ganiatáu i bobl ifanc aros mewn gofal preswyl nes eu bod yn 21 oed.<br><br>• A oes cymorth i roi'r cynllun Pan Fydda i'n Barod ar Waith? Sut fydd yn cael ei ariannu?<br><br>• Yr angen i gyfeirio at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yn y Cod<br><br>• Gwnaeth y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid y sylw yr hoffai weld y trefniadau sy'n bodoli yn Lloegr ar hyn o bryd yn cael eu hymestyn i Gymru, gyda rôl Ombwdsmon y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaethau Carchardai'n gael ei hymestyn i gynnwys ymchwiliadau i farwolaethau plant mewn cartrefi plant diogel yng Nghymru. Byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl rhannu gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau o'r fath.<br><br>**<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>**<br><br>Fel a nodir uchod, bydd ein trefniadau monitro ar gyfer y cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' yn cynnwys yr effaith ar argaeledd lleoedd gofal maeth. Yn fwy eang, bydd recriwtio a chadw gofalwyr maeth yn cael sylw trwy ein gwaith i ddatblygu Fframwaith Maethu Cenedlaethol i Gymru. Mae'r broses o roi'r cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' ar waith yn cael ei chefnogi gan gyfres o seminarau i awdurdodau lleol ac asiantaethau maethu, ac rydym hefyd wedi comisiynu canllaw arfer da a deunyddiau eraill i gynorthwyo pobl ifanc a gofalwyr maeth i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch ymrwymo i drefniadau 'Pan Fydda i'n Barod'. Un o ganlyniadau allweddol 'Pan Fydda i'n Barod' yw bod pobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i symud ymlaen at drefniadau byw mwy annibynnol dim ond pan ydynt yn barod i wneud hynny ac wedi datblygu'r hyder a'r sgiliau angenrheidiol. Ein cred ni yw y bydd unrhyw gostau ychwanegol a ysgwyddir gan awdurdodau lleol o ganlyniad i roi'r cynllun ar waith yn cael eu gwrthbwyso gan fanteision proses bontio fwy llwyddiannus i fyw'n annibynnol.<br><br>Byddwn yn ystyried y potensial i ymestyn y cymorth sydd ar gael i bobl ifanc mewn cartrefi plant preswyl, gan ddysgu gwersi o rannau eraill o'r DU sydd wedi ystyried newid o'r fath neu wedi'i roi ar waith yn barod. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol ar hyn, gan gynnwys Grŵp Monitro 'Pan Fydda i'n Barod'.<br><br>Rydym yn ystyried y cwestiwn ynglŷn ag ymestyn cylch gorchwyl Ombwdsmon y Gwasanaeth Prawf a'r |

| | |
|---|---|
| | Gwasanaethau Carchardai ar wahân gydag adrannau perthnasol Llywodraeth y DU, llywodraeth leol a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. |

## Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

| Rhif | Cyfrinachol I | / N | Enw | Sefydliad/Ar ran |
|---|---|---|---|---|
| 1. | | * | Jennifer Edwards | Darpar ymwelydd iechyd |
| 2. | * | | | |
| 3. | | * | Rhea Stephens | Action for children - Gweithredu dros Blant |
| 4. | | * | Sarah Payne | Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr |
| 5. | | * | Sally Holland | Comisiynydd Plant Cymru |
| 6. | | * | Rhian Huws Williams | Cyngor Gofal Cymru |
| 7. | | * | Eunice Jones | CBS Torfaen |
| 8. | | * | Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai | CBS Castell-nedd Port Talbot |
| 9. | | * | Cecile Gwilym | NSPCC Cymru/Wales |
| 10. | | * | Gareth Llwyd | Ynys Môn |
| 11. | | * | Suzanne Griffiths | Y Gwasanaeth Maethu Cenedlaethol |
| 12. | | * | Steve Elliott | Fforwm Gofal Cymru – Plant sy'n Derbyn Gofal |
| 13. | * | | | |
| 14. | | * | Carolyn Sampeys | Gwasanaeth Diogelu Plant Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| 15. | | * | Carolyn Sampeys | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| 16. | | * | Susan Cooper | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| 17. | | * | Dave Street | CBS Caerffili |
| 18. | | * | Dr Emily Warren | Rhwydwaith Maethu Cymru |
| 19. | | * | Helen Evans | Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot |
| 20. | | * | Menna Thomas | Barnardos Cymru |
| 21. | | * | Kate Devonport | CBS Conwy |
| 22. | | * | Jean Davies | Cyngor Sir Penfro |
| 23. | | * | Stephanie O'Donnell | Cyngor Sir Ddinbych |
| 24. | | * | Stephanie O'Donnell | Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan |
| 25. | * | | | |
| 26. | | * | Kathy s'Jacob | Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain (BAAF) |
| 27. | | * | Karen Benjamin | Dinas a Sir Abertawe, Plant a Theuluoedd |
| 28. | | * | Mark Saunders | CBS Torfaen |
| 29. | * | | | |
| 30. | | * | Neil Ayling | Cyngor Sir y Fflint |
| 31. | | * | Claire Williams | Fforwm Gadael Gofal Cymru Gyfan |
| 32. | | * | Dr Julie Doughty | Prifysgol Caerdydd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **33.** | | * | Sue Evans a Steve Thomas | ADSS Cymru a CLlLC |
| **34.** | | * | Nichola Poole | Cynghorau Dinas Caerdydd a Bro Morgannwg |
| **35.** | * | | | |
| **36.** | | * | Sara Harvey | Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae’r Gorllewin |
| **37.** | | * | Sheilah Gaughan | Tîm Tai a Digartrefedd |
| **38.** | | * | Abyd Quinn Aziz | Prifysgol Caerdydd |
| **39.** | | * | Nigel Brown | AGGCC |
| **40.** | | * | Carol Floris | Voices From Care |
| **41.** | | * | Cathy Ashley | Grŵp Hawliau’r Teulu |
| **42.** | * | | | |
| **43.** | | * | Sean Oneill | Plant yng Nghymru |
| **44.** | * | | | |
| **45.** | | * | Alice Owen | Cymdeithas y Cyfreithwyr |